**COFNODION ARBENNIG PWYLLGOR Y TY**

**Dyddiad**: 23 Tachwedd 2004

**Amser**: 5.30pm

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda E, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (hefyd yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Is-adran y Gyfraith
Nadia Cummins, Swyddog Mynediad at Wybodaeth
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau
Sara Lloyd Mackay, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd
Simon Phelps, Prosiect Adeiladau Adeilad Newydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

**Ymddiheuriadau**:

John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffïoedd

Croesawodd y Cadeirydd Nadia Cummins, Swyddog Mynediad at Wybodaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Simon Phelps, Rheolwr Prosiect Adeiladau Adeilad Newydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i'r cyfarfod. Ymddiheurodd y Cadeirydd am ohirio cyfarfod Pwyllgor y Ty ar 18 Tachwedd. Bu'n rhaid iddo gael ei ohirio er mwyn rhoi mwy o amser i'r Aelodau ystyried yr amryw bapurau. Diolchodd yr Aelodau am ddod i'r cyfarfod arbennig er mwyn trafod eitemau yr oedd angen penderfynu yn eu cylch ar frys. Câi gweddill y papurau eu hystyried yn y cyfarfod ar 9 Rhagfyr.

## 1 <u>Mynediad at Wybodaeth HC(2)-08-04(p6)</u>

Dywedodd y Cadeirydd iddo ef a swyddogion ymgynghori â'r

Comisiynydd Gwybodaeth. Yn sgil trafodaethau ag Aelodau ynghylch y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, diwygiwyd y ddogfen er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddeuai i rym ar 1 Ionawr 2005.

Nododd yr Aelodau fod dau ddosbarth o eithriadau o fewn y Ddeddf - diamod ac amodol, gyda'r olaf yn amodol ar brawf er lles y cyhoedd. Roedd y cod drafft yn fwy heriol na'r Ddeddf oherwydd, mewn rhai achosion, byddai'r Cynulliad hefyd yn defnyddio prawf lles y cyhoedd er mwyn penderfynu a ddylid defnyddio'r eithriad amodol. Mae teitl pob eithriad wedi'i restru yn y Cod.

Byddai gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad ei set ei hun o weithdrefnau ar gyfer defnyddio'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Wrth lunio'r gweithdrefnau rhoddwyd ystyriaeth i'r cynigion a amlinellwyd yn y papur ar ddirprwyo ynghylch Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [HC(2)-08-04(p4)], i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd Nadia Cummins y byddai log yn cael ei gadw o'r datgeliadau a wneir a'r ceisiadau a dderbynnir. Byddai ar gael ar y Rhyngrwyd. Roedd gweithdrefn ddrafft Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn datgan, bob tro y gofynnid am weld gwybodaeth yn ymwneud ag Aelod unigol o dan y Cod, y câi'r Aelod hwnnw wybod.

Nodwyd bod y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad a Rheol Sefydlog 19 a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ym mis Mai 1999 yn hen bellach. Argymhellodd yr Aelodau y dylai'r cod a'r Rheol Sefydlog gael eu diddymu a olygai y byddai'n rhaid i'r mater gael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn.

Yn amodol ar y mân ddiwygiadau a drafodwyd, derbyniodd yr Aelodau y Cod a'r gweithdrefnau i ymdrin â cheisiadau. Er bod amgylchiadau pan ellir ceisio gwybodaeth am yr Aelodau pan na fyddai modd ymgynghori â hwy ee, ymchwiliadau gan yr heddlu - nodwyd bod gan yr heddlu bwerau ar wahân ac ni fyddid yn delio â materion fel y rhain o dan y Cod. Nododd y Aelodau fod y Cod yn gymwys i'r Cynulliad i gyd ac y câi ei gyflwyno gerbron yr Aelodau yn ogystal â Phwyllgor y Ty. Câi'r Cod ei drafod mewn Cyfarfod Llawn ar 8 Rhagfyr.

**Camau i'w cymryd: Nadia Cummins**

**2 <u>Deddfwriaeth Cymru Ar-lein (WLOL) HC(2)-08-04(p12)</u>**

Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty gytuno i roi grant blynyddol i Ysgol y Gyfraith, Caerdydd, ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, am dair blynedd er mwyn cynnal gwefan Deddfwriaeth Cymru Ar-lein. Nodwyd ar y wefan y swyddogaethau sydd wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n cael eu cyflawni ganddo. Roedd Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau wedi rhoi grant i Ysgol y Gyfraith Caerdydd er mwyn cynnal

ei gwefan.  Byddai'n dod i ben, fodd bynnag, fis Rhagfyr 2004.

Nid oedd tâl am ddefnyddio'r wefan. Roedd yn fodd i alluogi'r cyhoedd i weld gwybodaeth am weithgareddau'r llywodraeth ym maes deddfwriaeth yn ogystal â rhoi gwybodaeth hawdd ei deall am gwmpas pwerau'r llywodraeth mewn meysydd penodol. Dengys y dystiolaeth sydd ar gael fod y wefan yn cael ei defnyddio'n helaeth gan yr Aelodau a swyddogion.

Cytunodd yr Aelodau i roi grant er mwyn sicrhau parhad Deddfwriaeth Cymru Ar-lein gan ei fod yn gyfrwng gwerthfawr i'w ddefnyddio ac yn adnodd sylweddol. Ni fyddai'r grant yn fwy na £20K y flwyddyn am y tair blynedd nesaf a byddai'n amodol ar gael swm cyfatebol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Camau i'w cymryd: Peter Jones**

**3 <u>Gwerthuso'r Contract Hyfforddiant ynglyn â'r Iaith Gymraeg a Chynigion i'w Adnewyddu HC(2)-08-04(p13)</u>**

Roedd y contract ar gyfer hyfforddiant Aelodau'r Cynulliad ar yr iaith Gymraeg ar fin dod i ben ar 3 Chwefror 2005. Cafodd y contract ei werthuso ar ei hyd a gwnaed arolwg o farn yr Aelodau ynghylch y gwasanaeth. Cytunodd yr Aelodau i aildendro'r gwaith ar sail contract a fyddai'n mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella ac anghenion yr Aelodau fel y'u nodwyd yn y gwerthusiadau.

**Camau i'w cymryd: Adnoddau Dynol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

**4 <u>Ffitiadau Dodrefn Rhydd Adeilad Newydd y Cynulliad HC(2)-08-04(p17)</u>**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gyllideb, y strategaeth ar gyfer y dodrefn a'r eitemau a gafodd eu cynnig ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. Roedd y dodrefn a gynigiwyd wedi'u dewis er mwyn sicrhau cysondeb o ran golwg a theimlad drwy'r adeilad a hyblygrwydd o ran eu defnydd. Cafodd y defnyddiau a'r lliwiau eu dewis ar sail eu cadernid a'r gofynion o ran y defnydd a fydd yn cael ei wneud ohonynt.

Dywedodd Dianne Bevan yr ymgynghorwyd â'r Aelodau ynghylch y dodrefn mewn arddangosfa a gynhaliwyd ddechrau mis Tachwedd. Dangosodd y sylwadau a'r adborth a gafwyd fod y rhan fwyaf o'r Aelodau yn fodlon ar yr hyn a gynigiwyd er bod rhai wedi nodi eu dewis. Gwahoddwyd grwp o bobl hyn a oedd yn ymweld â'r adeilad i roi eu barn anffurfiol ynghylch y dodrefn a gâi eu harddangos o ran pa mor gyfforddus yr oeddent a'u golwg ac, ar y cyfan, roedd eu sylwadau yn gefnogol.

Dywedodd yr Aelodau ei bod yn well ganddynt y gadair 'Oxford' ar olwynion, cyn belled ag y bo'n cynnal y meingefn fel y bo'n briodol.

Gofynnodd William Graham am freichiau ar y cadeiriau. Mynegodd bryder ynghylch y breichiau dur gloyw a gofynnodd a ellid darparu gorchudd drostynt er mwyn eu gwneud yn fwy cyfforddus. Bydd swyddogion yn ymchwilio i'r mater. Dywedodd y Llywydd ei fod wedi gwerthuso cadair ‘Oxford’ dros gyfnod o sawl wythnos a’i fod o’r farn ei bod yn foddhaol.

Dywedodd Janice Gregory ei bod yn pryderu ynghylch dyfnder y meinciau i'w defnyddio yn y dderbynfa. Dywedodd Simon Phelps y byddai'n ymchwilio i gynlluniau eraill mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Nodwyd y byddai cymysgedd o seddau ar gael ar gyfer yr Aelodau ac ymwelwyr ym mhob rhan o'r adeilad.

Anogodd yr Aelodau i'r swyddogion barhau â'u hymchwiliadau i ffynonellau cynaliadwy o bren derw o Gymru at ddibenion ei gaffael, yn amodol ar yr hyn a oedd ar gael a'r gost.

**Camau i'w cymryd: Simon Phelps**

Roedd yr Aelodau yn barod i gymeradwyo'r gyllideb, y strategaeth ar gyfer y dodrefn, a'r cynigion mewn egwyddor. Rhoesant yr awdurdod i'r swyddogion fynd yn eu blaen ar sail yr opsiynau a'r cynigion a gyflwynwyd, gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed, er mwyn caffael y dodrefn sydd ei angen yn unol â'r rhaglen ffitiadau ac o fewn y gyllideb o £1.6 miliwn y cytunwyd arni.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 9 Rhagfyr 2004
**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**